Cyngor Sir Penfro
Pembrokeshire
County Council

# Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

# Cynnig i ddiddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran a’i sefydlu fel ysgol gymunedol 3–11 oed

# ADRODDIAD YMGYNGHORI

**Steven Richards-Downes**
**Cyfarwyddwr Addysg**

**Mai 2026**

**Cyhoeddwyd gan:**

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
**Cyngor Sir Penfro**
**Neuadd y Sir**
**Hwlffordd**
**SA61 1TP**

**Mai 2026**

I gael copi o'r cyhoeddiad hwn ar ffurf Braille, mewn print bras neu ar ffurf tâp sain, neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar 01437 776613

# Rhagair

Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel, ac am ddarparu addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae cael yr ysgolion cywir yn y mannau cywir, a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer dysgwyr yr 21ain ganrif, yn her sy’n wynebu cynghorau ledled Cymru.

Mae mynd i’r afael â’r her hon yn cynnwys adolygu nifer a mathau’r ysgolion sydd gan y cyngor yn ei ardal, ac asesu a ydyw’r defnydd gorau yn cael ei wneud o’i adnoddau a’i gyfleusterau.

Mae’r cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth ar sail y canlynol:

- Ansawdd a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol yn y dyfodol
- Digonolrwydd a hygyrchedd lleoedd ysgolion
- Cyflwr, addasrwydd a safon adeiladau ysgolion
- Gwerth am arian

Mae’r adroddiad ymgynghori hwn yn amlinellu canfyddiadau’r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd mewn perthynas â’r cynnig i ddiddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran a’i sefydlu fel ysgol gymunedol 3–11 oed. Mae pob ymateb a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi eu cofnodi, ynghyd â chrynodeb o’r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion. Mae’r rhain yn cael eu cysylltu ag eglurhad neu wrthodiad (fel y bo’n briodol) o unrhyw bryderon.

Bydd Cyngor Sir Penfro yn ystyried yr adroddiad ymgynghori hwn yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2026.

**Steven Richards-Downes**
**Cyfarwyddwr Addysg**

**Cynnwys**


1. **Cyflwyniad**
2. **Dosbarthu'r adroddiad ymgynghori**
3. **Trefniadau ymgynghori a llais y dysgwr**
4. **Gohebiaeth yn ystod yr ymgynghoriad**
5. **Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**
6. **Asesiad effaith ar y gymuned wedi ei ddiweddaru**
7. **Asesiad effaith wedi ei ddiweddaru ar ansawdd a safonau mewn addysg, ac effaith trefniadau teithio gwahanol**
8. **Dadansoddiad wedi ei ddiweddaru o'r dewisiadau amgen a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori**
9. **Crynodeb o'r canfyddiadau**
10. **Cynnig**

**ATODIAD A – Ymatebion i'r ymgynghoriad**
**ATODIAD B – Ymatebion gan y disgyblion**
**ATODIAD C – Ymateb gan Estyn**
**ATODIAD D – Ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru**
**ATODIAD E – Ymateb gan Esgobaeth Tyddewi**

# 1. Cyflwyniad

Mae gan Gyngor Sir Penfro ddyletswydd statudol i sicrhau digon o leoedd ysgol addas yn ei ardal ac i benderfynu a ydyw'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2025, bu Cyngor Sir Penfro yn ystyried adroddiad gan y Gweithgor Moderneiddio Ysgolion a oedd yn amlinellu canfyddiadau adolygiad o ddarpariaeth addysg yn ardal y Preseli. Yn benodol, bu'r adolygiad yn ystyried faint o leoedd gwag sydd mewn ysgolion yn yr ardal, o ystyried y gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion.

Amlinellodd yr adroddiad y sefyllfa bresennol mewn perthynas ag Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, a thynnodd sylw at ei statws fel ysgol 'wledig', yng nghyd-destun y 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig' o fewn Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Penderfyniad y cyngor ar 8 Mai oedd:

| |
|---|
| Bod y Cyfarwyddwr Addysg yn cael ei awdurdodi i gychwyn ymgynghoriad statudol ag Esgobaeth Tyddewi ar y cynnig i ddiddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3–11 oed. |

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, anfonwyd llythyr at Esgobaeth Tyddewi ar 13 Mai 2025 i ofyn am ei barn ar y cynnig. Ystyriwyd ymateb yr esgobaeth gan y cyngor sir yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2025. Roedd penderfyniad y cyngor fel a ganlyn:

| |
|---|
| Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Addysg i gynnal ymgynghoriad cyffredinol ar y cynnig i ddiddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3–11 oed. |

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol dilynol yn ystod y cyfnod rhwng 16 Rhagfyr 2025 a 30 Ionawr 2026.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldeb y cyngor sir fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gyhoeddi adroddiad ymgynghori. Mae'r ddogfen hon yn gwneud y canlynol:

- Crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion
- Amlinellu barn Estyn ar rinweddau cyffredinol y cynnig (gan gynnwys ei ymateb yn llawn)
- Ymateb i faterion a godwyd gan yr ymgyngoreion ac Estyn, drwy egluro neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau dros y penderfyniad

# 2. Dosbarthu'r adroddiad ymgynghori

**Bydd yr adroddiad ymgynghori hwn yn cael ei ddosbarthu i'r canlynol:**

<table>
<tr><td colspan="2">Rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid, staff, a chorff llywodraethu'r ysgol yr effeithir arni gan y cynnig:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried ei bod yn debygol y bydd y cynigion yn effeithio arnynt:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ni ragwelir y bydd y cynigion hyn yn effeithio ar unrhyw ysgolion eraill.</td></tr>
<tr><td>Aelodau etholedig:</td><td></td></tr>
<tr><td>• Aelodau newydd o'r Senedd, a etholir yn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026<br>• Ben Lake, Aelod Seneddol (Ceredigion Preseli)</td><td>• Y Cynghorydd John Davies</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cynghorau tref a chymuned perthnasol:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyngor Cymuned Cilgerran</td></tr>
<tr><td colspan="2">Undebau llafur:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU), Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT), Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC), Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT), Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL), UNSAIN, UNITE, GMB</td></tr>
<tr><td colspan="2">Awdurdod esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig yng Nghymru</td></tr>
<tr><td>Tyddewi</td><td>Archesgobaeth Unedig Caerdydd-Mynyw</td></tr>
<tr><td colspan="2">Awdurdodau lleol:</td></tr>
<tr><td colspan="2">• Cyngor Sir Caerfyrddin<br>• Cyngor Sir Ceredigion</td></tr>
<tr><td colspan="2">Eraill</td></tr>
<tr><td>• Gweinidogion Cymru</td><td>• Estyn</td></tr>
<tr><td>• Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys</td><td>• Comisiynydd y Gymraeg</td></tr>
<tr><td>• Partneriaeth – Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol</td><td>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</td></tr>
<tr><td colspan="2">Darparwyr blynyddoedd cynnar / gofal plant annibynnol / gwirfoddol</td></tr>
<tr><td>Lleoliadau cylch chwarae<br>• Cylch Meithrin Hermon<br>• Cylch Meithrin Bwlch-y-groes<br>• Cylch Meithrin Crymych<br>• Meithrinfa Playdays</td><td>Gwarchodwyr plant<br>• MG – Blaen-ffos<br>• LP – Boncath<br>• SD – Cilgerran<br>• FB – Cilgerran</td></tr>
</table>

Yn ogystal, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddosbarthu i bob ymgynghorai sydd wedi gofyn yn benodol i gael gwybod ei fod ar gael.

# 3. Trefniadau ymgynghori a llais y dysgwr

**Trefniadau cyffredinol**

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, cynhyrchodd y cyngor ddogfen ymgynghori, a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2025, a oedd hefyd yn cynrychioli dechrau'r cyfnod ymgynghori. Roedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn cydymffurfio â'r gofyniad i roi o leiaf 42 diwrnod i ymgyngoreion ymateb, gydag o leiaf 20 diwrnod ysgol yn dod o fewn y cyfnod hwnnw. Daeth i ben ar 30 Ionawr 2026.

Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori i'r holl ymgyngoreion statudol a restrir ar dudalen 5 o'r ddogfen honno, a/neu anfonwyd dolenni i'r ddogfen atynt.

Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan y cyngor sir yn www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud/ymgynghoriadau, gyda chopïau papur ar gael ar gais.

**Llais y dysgwr**

Casglwyd barn disgyblion Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran drwy sesiwn ymgynghori a hwyluswyd gan y pennaeth. Cymerodd 66 o ddisgyblion o flynyddoedd 3 i 6 ran yn y sesiwn ymgynghori, gyda phob ymateb gan y disgyblion wedi ei gofnodi'n ddienw. Mae'r ymatebion hyn i'w gweld yn Atodiad B.

Gofynnwyd i'r disgyblion am eu barn ynglŷn â dileu statws ysgol wirfoddol a reolir yr ysgol, ac mae'r sylwadau wedi eu nodi isod yn ôl thema, ynghyd ag ymateb yr awdurdod.

| **Sylwadau'r disgyblion** | **Ymateb Cyngor Sir Penfro** |
|---|---|
| Mae'r disgyblion yn poeni y byddai newidiadau'n golygu na fyddant bellach yn gallu siarad yn hawdd â'r pennaeth, ac y gallai problemau gymryd mwy o amser i'w datrys, a gwersi'n dechrau'n hwyr. | Y cynnig presennol yw newid statws ysgol wirfoddol a reolir Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yn unig. Nid oes cynnig i ffedereiddio ag ysgol arall, nac unrhyw gynnig i newid y strwythur presennol o ran arweinyddiaeth, er mai un rheswm allweddol a nodwyd dros y cynnig yw galluogi ffedereiddio yn y dyfodol, pe bai ei angen. Os caiff y cynnig hwn i ddiddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol ei weithredu, bydd gan y disgyblion yr un mynediad i'r |

| | |
|---|---|
| | pennaeth, ac arweinwyr yr ysgol, ag sydd ganddynt ar hyn o bryd. |
| Mae gan y disgyblion bryderon, os byddant yn uno ag ysgolion eraill ac yn dileu'r statws eglwysig, y bydd gan y pennaeth a'r dirprwy ormod o waith i'w wneud. | Nid oes cynnig i uno ysgolion na newid trefniadau arweinyddiaeth fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Byddai rolau, cyfrifoldebau a llwythi gwaith eu staff yn parhau yn ddigyfnewid. Wedi dweud hynny, fel uchod, rheswm clir dros y cynnig yw galluogi ffedereiddio yn y dyfodol, pe byddai angen gwneud hynny. |
| Mae'r disgyblion yn pryderu y byddai'n annheg uno ysgol sy'n sefydlog yn ariannol ag un nad ydyw mor sefydlog. | Nid oes cynnig i uno na ffedereiddio'r ysgol. Ymgynghoriad ar newid yr ysgol i fod yn ysgol gymunedol yn unig yw hwn. Fodd bynnag, fel uchod, pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, byddai modd ffedereiddio yn y dyfodol ag un neu ragor o ysgolion cymunedol eraill. |
| Mae'r disgyblion yn pryderu y bydd eu cysylltiad â'r eglwys yn cael ei golli gan ei bod wedi bod yn rhan o'r ysgol erioed. | Mae'r cynnig yn ymwneud â statws cyfreithiol a llywodraethiant yr ysgol, nid i gael gwared ar y gwerthoedd y mae disgyblion yn eu cysylltu â'u hysgol eglwysig. Waeth beth fo'r canlyniad, byddai'r ysgol yn parhau i hyrwyddo gwerthoedd craidd fel caredigrwydd, parch, gofal a chymuned. Fodd bynnag, cydnabyddir na fyddai'r ysgol yn ysgol wirfoddol a reolir yr Eglwys yng Nghymru mwyach. |
| Mae'r disgyblion am wybod a fyddan nhw'n parhau i weddïo a dysgu am ffydd yn yr ysgol, ac a fydd traddodiadau, fel y gwasanaeth yn yr eglwys i ddysgwyr blwyddyn 6 sy'n ymadael â'r ysgol, yn parhau. | Gall gweddïo a dysgu am ffydd ddigwydd o hyd mewn ysgolion cynradd cymunedol yng Nghymru. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys gofyniad statudol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sy'n orfodol i bob dysgwr o dair oed ymlaen. Mae'r cwricwlwm hwn wedi ei gynllunio i fod yn gynhwysol, ac i barchu pob crefydd, cred a byd-olwg anghrefyddol. |
| Mae rhai disgyblion yn teimlo bod penderfyniadau wedi cael eu gwneud heb ystyried y plant na'r athrawon. | Mae barn y disgyblion yn rhan bwysig o'r broses ymgynghori, a gwrandawyd arno'n ofalus. Maent wedi eu crynhoi |

| | |
|---|---|
| | yn yr adroddiad hwn, ac mae'r ymatebion llawn wedi eu cynnwys fel atodiad iddo. Byddant yn cael eu darllen a'u hystyried gan y cynghorwyr sir a fydd yn gwneud y penderfyniad. |
| Gallai newid y statws leihau mwynhad a chyfleoedd i gael hwyl. | Nid yw'r cynnig presennol i newid y statws ysgol wirfoddol a reolir yn cynnwys newidiadau i fywyd bob dydd yr ysgol, ei harferion, na'r gweithgareddau y mae'r disgyblion yn eu mwynhau. |

# 4. Gohebiaeth yn ystod yr ymgynghoriad

**Nifer a phroffil yr ymatebion a ddaeth i law**

Daeth cyfanswm o 203 o ymatebion i law, drwy'r ddolen we ar-lein, ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad, negeseuon e-bost a llythyrau.

Rhoddir proffil yr ymatebwyr isod, ac mae'n adlewyrchu'r holl ddisgrifiadau a roddwyd. Mae'r proffil hwn yn dangos rôl yr ymatebwyr fel rhan o'r ymgynghoriad, a gall nodi sawl rôl, e.e. rhiant, staff a phreswylwyr lleol. O ganlyniad, nid yw'r cyfanswm yn cyfateb â nifer yr ymatebion a ddaeth i law.

| **Proffil** | **Nifer** |
|---|---|
| Rhiant cyn-ysgol | 18 |
| Rhiant / gofalwr / gwarcheidwad | 75 |
| Staff | 11 |
| Llywodraethwr | 5 |
| Preswylydd | 102 |
| Arall | 45 |

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr ysgolion yr oedd y grwpiau hyn â diddordeb pennaf ynddynt.

| **Ysgol** | **Nifer** |
|---|---|
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran | 195 |
| Arall | 6 |

# 5. Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

**ConsenswS cyffredinol**

Pan ddewisodd ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ar-lein, neu'r copi papur a ddarparwyd, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiynau canlynol, a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynnig, er mwyn canfod pa un o'r datganiadau canlynol oedd yn adlewyrchu eu barn orau. (Dylid nodi nad oedd yr un o'r cwestiynau yn orfodol, felly efallai fod rhai ymatebwyr wedi dewis peidio ag ateb rhai cwestiynau). Dyma'r canfyddiadau:

***Cwestiwn 1: Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y cynnig – Diddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3–11 oed***

| | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** |
| **Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall** | 2 | 1% |
| **Rwy'n cefnogi'r cynnig** | 3 | 1.5% |
| **Nid wyf yn cefnogi'r cynnig** | 197 | 97% |
| **Dim ymateb** | 1 | 0.5% |
| **CYFANSWM** | | **100%** |

***Cwestiwn 2: Rhowch unrhyw ddewisiadau amgen sydd gennych i gynnig y cyngor***

Cafwyd 137 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac mae pedair thema allweddol wedi eu nodi. Dangosir y rhain isod ynghyd ag ymateb yr awdurdod.

| **Dewisiadau amgen a gynigiwyd** | **Ymateb Cyngor Sir Penfro** |
|---|---|
| Cadw'r sefyllfa bresennol a chadw ysgol Cilgerran fel ysgol wirfoddol a reolir | Mae'r cyngor yn cydnabod bod llawer o ymgyngoreion yn ffafrio cadw'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, mae'r cynnig wedi ei gyflwyno i wella cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol, ac i sicrhau y gall fod yn fwy gwydn ynglŷn ag arweinyddiaeth a heriau sefydliadol yn y dyfodol. |
| Dilyn model ffedereiddio neu gydweithredu rhwng ysgolion gwirfoddol a reolir, neu ddatrysiad llywodraethu cymysg | Ysgolion cymunedol yw'r ysgolion eraill yn yr ardal. Nid oes unrhyw ysgolion gwirfoddol a reolir cyfagos i ffedereiddio â nhw. Nid oes gan yr awdurdod lleol, na chyrff llywodraethu ysgolion, bwerau i ffedereiddio ysgolion gwirfoddol ag ysgolion cymunedol. |

| | |
|---|---|
| Cefnogi trefniadau arweinyddiaeth weithredol neu ar y cyd nad ydynt yn gofyn am newid categori ysgol | Mae'n bosibl i ysgolion, na allant ffedereiddio yn ffurfiol, gydweithio'n agos trwy drefniadau cydweithredol. Gall corff llywodraethu ffurfio cyd-bwyllgor gyda llywodraethwyr mewn ysgolion eraill. Gall hyn ganiatáu dull ar y cyd o ddarparu'r cwricwlwm, adolygu a rhannu polisïau, a rhannu cyfleusterau. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn caniatáu i staff gael eu penodi, ac maent yn peri problem oherwydd bod cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol yn elusennau esempt. Felly, mae llywodraethwyr ysgolion gwirfoddol yn ymddiriedolwyr, ac mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt weithredu er budd yr ysgol benodol honno yn unig. Mae hyn yn rhwystro cydweithio gwirioneddol, ac nid yw'r dull yn galluogi'r buddion y gellir eu cyflawni trwy ffedereiddio ffurfiol. |
| Gwahodd mynegiadau o ddiddordeb gan ysgolion cyfagos i newid i statws ysgol wirfoddol a reolir | Ni all ysgolion cymunedol ddod yn ysgolion gwirfoddol â chymeriad crefyddol dynodedig trwy gynnig newid categori. Byddai'n rhaid diddymu un neu ragor o ysgolion cymunedol yn yr ardal, a'u sefydlu fel ysgolion gwirfoddol a reolir, yn yr un modd ag y mae'r cynnig hwn yn cynnig diddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol.<br><br>O ystyried bod yr holl ysgolion yn yr ardal yn ysgolion cymunedol, ni ystyrir ei bod yn rhesymegol diddymu sawl ysgol gymunedol i newid eu statws i ysgolion gwirfoddol a reolir, pan mai dim ond un ysgol wirfoddol a reolir fyddai angen ei diddymu a'i hailsefydlu i newid ei statws i ysgol gymunedol, er mwyn galluogi ystyried cyfle ffedereiddio yn y dyfodol. Noder y gall ffederasiwn gynnwys hyd at chwe ysgol. |

**Effaith ar y Gymraeg**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar yr effaith debygol ar y Gymraeg

***Pa effeithiau ydych chi'n teimlo y byddai'r cynnig / cynigion yn eu cael ar y canlynol:***
***i) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg?***
***(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?***

***Ystyriwch a ellir newid y cynnig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol (neu effeithiau mwy cadarnhaol), ac er mwyn osgoi neu leihau effeithiau negyddol ar y canlynol:***
***i) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg?***
***(ii) yr angen i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?***

Cafwyd 135 o ymatebion i'r cwestiynau hyn. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Gymraeg yn ffynnu yn yr ysgol ar hyn o bryd, oherwydd y statws ysgol wirfoddol a reolir a'r berthynas rhwng yr eglwys a'r ysgol, sy'n darparu cyfleoedd ystyrlon i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Codwyd pryderon hefyd y gallai ffedereiddio neu rannu aelodau staff yn y dyfodol leihau defnydd bob dydd o'r Gymraeg. Teimlai lleiafrif bach y byddai gwarchodaeth statudol yn ddigonol, ond roedd pryderon ehangach yn drech na'r farn hon.

**Dyma oedd ymateb Estyn ynghylch yr effaith ar y Gymraeg:**

*Mae'r cynnig yn tybio, yn rhesymol, y bydd y newid arfaethedig yn statws yr ysgol yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg. Byddai'r ysgol yn parhau i fod yn ysgol Gymraeg categori 3, gyda'r ddarpariaeth iaith yn parhau i gefnogi'r amcanion yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn dewis symud i ysgolion lleol eraill, sydd oll hefyd yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.*

***Cwestiwn 5: Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar y cynnig***

Cafwyd 139 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a oedd yn gwrthwynebu dileu'r statws gwirfoddol a reolir yn llethol. Roedd y themâu allweddol a nodwyd yn adlewyrchu'n fras y rhai a godwyd mewn mannau eraill yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, roedd yr adran hon yn caniatáu i ymatebwyr gynnwys sylwadau mwy manwl a phersonol i ddangos cryfder y teimladau yn y gymuned. Er bod dadansoddiad ac ymateb wedi eu cynnwys yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, roedd y themâu allweddol yn canolbwyntio ar ffedereiddio ag ysgolion eraill yn y dyfodol, rhieni'n colli'r dewis o ysgolion ffydd, a cholli ethos a hunaniaeth.

**Dadansoddiad o'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad**

Mae rhestr o'r holl sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghlwm yn **ATODIAD A.**

Mae'r ohebiaeth a ddaeth i law yn datgelu sawl mater a godwyd gan yr ymgyngoreion. Mae'r rhain yn adlewyrchu cefnogaeth, meysydd sy'n peri pryder, dewisiadau amgen awgrymedig, a gwrthwynebiad, ac fe'u rhestrir isod.

**Sylwadau o blaid y cynnig**

Mynegodd nifer fach iawn o ymatebwyr gefnogaeth i'r cynnig i ddileu statws gwirfoddol a reolir yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Gwydnwch yn y dyfodol** | |
| | Cefnogwyd dileu'r statws gwirfoddol a reolir er mwyn cryfhau gwydnwch hirdymor, a diogelu'r ysgol rhag heriau posibl yn y dyfodol. |
| **Trefniadau llywodraethu** | |
| | Byddai statws cymunedol yn darparu mwy o hyblygrwydd pe bai angen yn y dyfodol, ac yn symleiddio trefniadau llywodraethu a'r broses o wneud penderfyniadau. |
| **Arweinyddiaeth** | |
| | Ymgynghoriad yn cael ei weld fel ymateb rhagweithiol i bwysau posibl ar recriwtio prifathrawon a gallu arweinyddiaeth yn y dyfodol. |
| **Cydweddu â llywodraeth leol** | |
| | Byddai statws cymunedol yn alinio'r ysgol â mwyafrif o ysgolion yr awdurdod lleol, gan alluogi cydweithio haws o bosibl. |

**Sylwadau yn erbyn y cynnig**

Nid oedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ddileu'r statws gwirfoddol a reolir.

| | |
|---|---|
| **Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r syniad bod angen newid** | |
| | Mae'r ysgol yn perfformio'n dda, yn sefydlog yn ariannol, ac mae ganddi dîm arwain cryf. |
| **Colli ethos a hunaniaeth ysgol wirfoddol a reolir** | |
| | Gwelir bod dileu'r statws wirfoddol a reolir yn erydu ethos Cristnogol, gwerthoedd, a hunaniaeth hanesyddol yr ysgol, y mae llawer o deuluoedd yn eu hystyried yn ganolog i gymeriad yr ysgol. |
| **Colli cydlyniant cymunedol** | |
| | Bydd dileu'r statws gwirfoddol a reolir yn cael effaith negyddol ar gydlyniant ac ymgysylltiad cymunedol. |
| **Dewis rhieni** | |
| | Hon yw'r unig ysgol gynradd leol sy'n ysgol ffydd, a byddai dileu'r statws gwirfoddol a reolir yn lleihau dewis ystyrlon i rieni. |
| **Pryderon ynghylch arweinyddiaeth a diogelu** | |
| | Codwyd pryder sylweddol y gallai dileu'r statws gwirfoddol a reolir gynyddu'r tebygolrwydd o ffedereiddio ac arweinyddiaeth a rennir, gan |

| | |
|---|---|
| | arwain at lai o arweinyddiaeth ar y safle, risgiau o ran diogelu, a llai o gymorth pwrpasol i ddisgyblion yn bersonol. |
| **Effaith ar anghenion dysgu ychwanegol** | |
| | Roedd yr ymatebwyr yn ofni y byddai arweinyddiaeth neu wasanaethau a rennir yn effeithio'n negyddol ar barhad a darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. |
| **Materion ariannol a pherchnogaeth tir** | |
| | Codwyd pryderon ynghylch lleoliad yr ysgol, sydd ar dir sy'n eiddo i'r eglwys, a goblygiadau cyfreithiol, ariannol ac ymarferol newid statws. |
| **Yr effaith ar y Gymraeg** | |
| | Teimlai llawer fod y statws gwirfoddol a reolir, a'r bartneriaeth rhwng yr eglwys a'r ysgol, yn cefnogi defnydd cryf o'r Gymraeg trwy gyd-destunau bywyd go iawn, cymunedol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. |

**Ymateb gan Estyn**

Mae'r cyngor wedi cael ymateb manwl i'r cynnig gan Estyn. Dyma ei gasgliad cyffredinol ar y cynnig:

*Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol, o leiaf, yn yr ardal.*

Mae ymateb llawn i'r cynnig gan Estyn ynghlwm yn **ATODIAD C.**

Er bod ymateb Estyn yn gadarnhaol ar y cyfan o ran y cynnig, a'i bod o'r farn y byddai o leiaf yn cynnal y safonau addysg presennol, mae'n codi rhai cwestiynau, sy'n cael eu trafod isod:

*Nid oedd y cynnig yn nodi a ydyw'r ysgol ar hyn o bryd yn elwa ar gymorth ariannol ychwanegol drwy'r Eglwys yng Nghymru o ganlyniad i'w statws fel ysgol wirfoddol a reolir, a pha effaith, os o gwbl, a allai fod ar gyllid cyffredinol yr ysgol o ganlyniad i'r newid arfaethedig.*

Fel ysgol wirfoddol a reolir, nid yw'r ysgol yn elwa ar unrhyw gyfraniadau cyfalaf esgobaethol, nac yn cael mynediad i ffrydiau cyllido statudol a reolir gan yr eglwys. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gyllid refeniw a chynnal a chadw cyfalaf.

*Mae Estyn yn datgan nad yw'r cynnig yn darparu gwybodaeth am arolygiad adran 50 diweddaraf yr Eglwys yng Nghymru, nac yn ystyried unrhyw newidiadau yn arfer neu gwricwlwm yr ysgol a allai ddeillio o'r newid.*

Roedd arolygiad adran 50 diweddaraf Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran o'r farn bod effeithiolrwydd cyffredinol yr ysgol, fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru, yn dda, gyda rhagolygon da ar gyfer gwella. Cadarnhaodd hefyd fod yr ysgol yn bodloni ei gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac addysg grefyddol.

Nid yw newid o statws ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol yn effeithio'n sylweddol ar y cwricwlwm ehangach na'r safonau addysgol. Mae'r prif newidiadau yn ymwneud ag addysg grefyddol, trefniadau addoli ar y cyd, arolygu enwadol, a llywodraethu. Byddai'r ysgol yn parhau i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn llawn, gyda Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu haddysgu o dan faes llafur yr awdurdod lleol, ac addoli ar y cyd yn cael ei drefnu yn unol â gofynion ysgolion cymunedol.

**Ymateb gan yr esgobaeth**

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, anfonwyd llythyr at Esgobaeth Tyddewi i ofyn am ei barn ar y cynnig. Ystyriwyd ymateb yr esgobaeth gan y cyngor sir yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2025.

Yn ogystal, roedd yr esgobaeth yn ymgynghorai statudol i'r ymarfer ymgynghori hwn, ac y mae ei hymateb llawn i'w weld yn Atodiad E. Cafwyd ymateb ysgrifenedig hefyd gan yr Eglwys yng Nghymru (Atodiad D). Mae'r safbwyntiau hyn wedi cael eu hystyried, ac maent wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad isod.

**Nodi themâu sy'n codi o'r ymgynghoriad**

Cynhaliwyd dadansoddiad ansoddol o'r sylwadau hyn, sy'n datgelu nifer o themâu. Rhoddir rhestr fanwl ohonynt isod, ynghyd ag ymatebion yr awdurdod. Nod y dadansoddiad fu casglu, dehongli a chyflwyno canfyddiad y cyhoedd mewn perthynas â'r cynnig mor gywir â phosibl. Mae pob sylw wedi cael pwysoliad cyfartal, waeth beth fo'i ffynhonnell na maint y cynnwys. Dylid nodi bod rhai o'r sylwadau a wnaed isod wedi eu mynegi yng nghyd-destun cefnogaeth a gwrthwynebiad i'r cynnig.

| Pryderon / sylwadau'r esgobaeth | Ymateb yr awdurdod i'r pryderon a godwyd |
|---|---|
| Materion teitl cyfreithiol a chyfiawn – ni fyddai gan ysgol gymunedol newydd hawl i feddiannu'r safle | Mae'r awdurdod yn cydnabod bod safle'r ysgol yn cynnwys tir sy'n eiddo i'r esgobaeth. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai newid categori'r ysgol yn amodol ar gytundebau cyfreithiol priodol i sicrhau bod y safle'n parhau i gael ei feddiannu. Ni fyddai unrhyw newid yn cael ei weithredu heb ddatrys hawliau perchnogaeth a meddiannaeth tir yn unol â gofynion statudol a chyfreithiol. |
| Erydu dewis rhieni a hawliau statudol | Mae'r awdurdod yn cydnabod y byddai'r cynnig yn newid argaeledd darpariaeth ffydd yn lleol, a bod llawer o rieni'n gwerthfawrogi'r statws gwirfoddol a |

| Pryderon / sylwadau'r esgobaeth | Ymateb yr awdurdod i'r pryderon a godwyd |
|---|---|
| | reolir presennol. Mae angen cydbwyso'r effaith hon â chyfrifoldeb yr awdurdod i ystyried cynaliadwyedd hirdymor a gwydnwch llywodraethu'r ysgol. |
| Annhegwch gweithdrefnol – mae'r ddadl i ddileu'r statws gwirfoddol a reolir yn annheg oherwydd bod y cynnig yn methu â nodi pa ysgol a allai ffurfio ffederasiwn ag Ysgol Cilgerran | Nid yw'r cynnig yn ceisio nodi na rhagnodi unrhyw ffedereiddio yn y dyfodol. Mae'r cyfeiriadau at ffedereiddio wedi eu cynnwys i adlewyrchu gallu'r ysgol i ffedereiddio ag ysgolion cymunedol yn y dyfodol, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.<br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai unrhyw gynnig posibl i ffedereiddio yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad ar wahân. |

| Pryderon / sylwadau cyffredinol | Ymatebion yr awdurdod i'r pryderon a godwyd |
|---|---|
| Colli ethos a hunaniaeth eglwysig | Byddai'r cynnig yn newid statws cyfreithiol yr ysgol, ond ni fyddai'n dileu addysg grefyddol o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y dynodiad gwirfoddol a reolir yn darparu ethos a model llywodraethu arbennig y mae llawer o deuluoedd yn ei werthfawrogi, ac na ellir atgynhyrchu hyn yn llawn ar ôl ei ddileu. |
| Effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg | Byddai'r ysgol yn parhau i fod yn ysgol Gymraeg â gwarchodaethau iaith statudol. Mae ymgyngoreion wedi tynnu sylw at y ffaith bod gweithgareddau dan arweiniad yr eglwys ar hyn o bryd yn darparu cyd-destunau anffurfiol ychwanegol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Adlewyrchir hyn yn yr asesiad effaith ar y gymuned sydd wedi ei ddiweddaru. |

| Pryderon / sylwadau cyffredinol | Ymatebion yr awdurdod i'r pryderon a godwyd |
|---|---|
| | Mae Estyn o'r farn y byddai'r newid arfaethedig yn statws yr ysgol yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg. |
| Y posibilrwydd o golli pennaeth llawnamser pe bai'r ysgol yn ffedereiddio yn y dyfodol | Ni fyddai'r cynnig hwn yn creu ffederasiwn, ond byddai'n galluogi ystyried un yn y dyfodol. Byddai buddion ac anfanteision ffedereiddio yn rhan o ymarfer ymgynghori, pe bai cynnig i ffedereiddio yn digwydd yn y dyfodol.<br><br>Mewn model wedi ei ffedereiddio, gall pob ysgol gadw ei phennaeth, er bod rhai ffederasiynau yn rhannu pennaeth. |
| Effaith ar ddiogelu ac anghenion dysgu ychwanegol | Byddai dyletswyddau diogelu statudol yn parhau yn ddigyfnewid. Mynegodd yr ymgyngoreion bryderon y gallai arweinyddiaeth a rennir effeithio ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol drwy leihau cysondeb a gwybodaeth bersonol am ddisgyblion, yn enwedig dysgwyr agored i niwed.<br><br>Roedd Estyn o'r farn na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol, o ganlyniad i newid y statws. |
| Mae'r ysgol eisoes yn llwyddiannus ac yn sefydlog, felly pam newid? | Cydnabyddir bod Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yn perfformio'n dda ac yn sefydlog yn ariannol. Mae'r cynnig yn seiliedig ar ystyriaethau strategol tymor hwy yn hytrach na phryderon perfformiad cyfredol. |
| Rhieni'n colli'r gallu i ddewis ysgol ffydd yn yr ardal | Cydnabyddir mai Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yw'r unig ysgol gynradd ffydd yn yr ardal leol ar hyn o bryd, a byddai newid ei statws yn lleihau dewis rhieni i deuluoedd sy'n chwilio'n weithredol am addysg eglwysig. |

| Pryderon / sylwadau cyffredinol | Ymatebion yr awdurdod i'r pryderon a godwyd |
|---|---|
| | |
| Colli cydlyniant cymunedol a ffyrdd o godi arian | Cydnabyddir bod perthynas gref yr ysgol â'r eglwys yn tanategu lefelau uchel o ymgysylltu â'r gymuned. |
| Pryderon bod y tir y mae'r ysgol wedi ei lleoli arno yn eiddo i'r eglwys | Mae'r awdurdod yn cydnabod bod yr ysgol wedi ei lleoli ar dir sy'n eiddo i'r eglwys ar hyn o bryd, a byddai unrhyw newid i'r statws yn gofyn am gytundebau cyfreithiol priodol. |

# 6. Asesiad effaith ar y gymuned wedi ei ddiweddaru

| Maes effaith | +/- |
|---|---|
| **Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**<br><br>**Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran**<br><br>Ar sail Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2025, roedd 112 o ddisgyblion cynradd yn byw yn nalgylch Ysgol Cilgerran ac yn mynychu ysgolion Sir Benfro. O'r rhain, roedd 88 (78.6%) yn mynychu'r ysgol.<br><br>Noder nad oedd data CYBLD 2026 ar gael ar adeg ysgrifennu.<br><br>Oherwydd eu bod yn agos at ffiniau'r awdurdod lleol â Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, mae nifer o ddisgyblion yn byw yn Sir Benfro ond yn mynychu ysgolion yn y siroedd hynny. Ar sail gwybodaeth a gafwyd gan y ddau awdurdod yn ystod tymor yr hydref 2024, mae tua 10 disgybl o ddalgylch Cilgerran yn mynychu ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin a 49 yng Ngheredigion. | Dim newid |
| **Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**<br><br>**Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran**<br><br>Ar sail CYBLD 2025, roedd 114 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran. O'r rhain, roedd 88 (77.2%) yn mynychu o ddalgylch yr ysgol. Roedd y disgyblion a oedd yn weddill yn mynychu o'r dalgylchoedd canlynol:<br><br>Ysgol Gynradd Gymunedol Eglwyswrw – 4<br>Ysgol Gynradd Gymunedol Maenclochog – 1<br>Ysgol Gynradd Gymunedol Llandudoch – 5<br>Ysgol Bro Ingli – 2<br>Ysgol Bro Preseli – 9<br>Ceredigion – 4 | Dim newid |

| | |
|---|---|
| Sir Gaerfyrddin – 1<br><br>O ystyried patrymau dewis rhieni presennol, ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn newid yn sylweddol yn dilyn newid yng nghategori'r ysgol. | |
| **Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau eraill sydd gan yr ysgol, e.e. clwb ieuenctid, cylch chwarae**<br><br>**Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu, e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol**<br><br>Adeiladwyd ac agorwyd canolfan blynyddoedd cynnar yn 2006. Mae Mudiad Meithrin yn cynnig darpariaeth ar gyfer plant dwy flwydd oed. | Dim newid |
| **Os darperir adeiladau, cyfleusterau neu wasanaethau gan yr ysgol, ble y byddent yn cael eu darparu pe bai'n cau**<br><br>Ni fyddai unrhyw gyfleusterau na gwasanaethau yn cael eu colli. | Dim newid |
| **A fyddai cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol gyfagos neu ehangach yn cael eu gwella pe bai'r ysgol yn cau (e.e. gwelliannau i neuaddau pentref, meysydd chwarae, darparu cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau)**<br><br>Ni fyddai unrhyw gyfleusterau na gwasanaethau yn cael eu colli. Byddai'r gymuned yn parhau i elwa ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael. | Dim newid |
| **Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen**<br><br>Nid oes unrhyw ddewisiadau sy'n gofyn am ystyried ysgol amgen. | Dim newid |
| **Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio sy'n gysylltiedig â mynychu ysgol amgen o'r un categori iaith**<br><br>Nid oes unrhyw ddewisiadau sy'n gofyn am ystyried ysgol amgen o ran categori iaith. | Dim newid. Fodd bynnag, gall hyn ddod yn effaith negyddol |

| | |
|---|---|
| Fodd bynnag, mae'r ysgol wirfoddol a reolir Gymraeg agosaf yn Nhreletert, sydd 23 milltir o Gilgerran. | ar blant sy'n mynychu'r ysgol yn benodol oherwydd ei statws ffydd. |
| **Sut y gellid cynorthwyo ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol amgen, ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig (e.e. sut y bydd disgyblion, ac yn enwedig unrhyw ddisgyblion llai breintiedig, yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol)**<br><br>Nid oes unrhyw ddewisiadau sy'n gofyn am ystyried ysgol amgen. | Dim newid |
| **Effaith ar iechyd a llesiant, e.e. pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu seiclo i'r ysgol**<br><br>Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar iechyd a llesiant, er bod hyn yn bosibl o ran yr effaith bosibl ar ddisgyblion o ran peidio â chael addysg mewn ysgol ffydd mwyach. O ran mynediad at y ddarpariaeth, bydd y dalgylchoedd cynradd ac uwchradd yn parhau yn ddigyfnewid, a bydd y disgyblion sy'n cerdded neu'n seiclo i'r ysgol ar hyn o bryd yn parhau i allu gwneud hynny. | Dim newid / newid negyddol posibl |
| **Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau'n eu cael ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus**<br><br>Nid oes unrhyw oblygiadau ehangach ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus o ganlyniad i'r cynnig. | Dim newid |
| **Gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach**<br><br>Ni chynigir newid cwmpas y ddarpariaeth, dim ond yr endid y caiff ei chyflwyno ynddo. Mae'n annhebygol y bydd yn arwain at unrhyw newid i faterion diogelwch cymunedol ehangach.<br><br>Wedi dweud hynny, teimlai un ymgynghorai fod y cysylltiad eglwysig yn cynnal cydlyniant cymunedol, tra bod ail ymatebydd yn teimlo y byddai'r cynnig yn gwanhau cydlyniant cymunedol. | Dim newid |
| **A fyddai cau yn annog teuluoedd â phlant oedran ysgol i ymadael â'r gymuned, neu'n annog teuluoedd ifanc i beidio â symud i'r gymuned** | Dim newid |

| | |
|---|---|
| Ni chynigir dileu darpariaeth, dim ond newid yr endid. | |
| **Pa effaith y gallai cau ei chael ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, er enghraifft, os mai'r ysgol yw'r unig adeilad cyhoeddus sy'n weddill mewn cymuned**<br><br>Ni chynigir dileu darpariaeth, dim ond newid yr endid. | Dim newid |
| **Bydded felly neu beidio, mae'r ysgol yn ganolfan wirioneddol i fywyd cymunedol, ac fe'i defnyddir at ddibenion eraill—megis cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, ffeiriau, cymorthfeydd, a chyfarfodydd eraill—a fyddai naill ai'n dod i ben, neu'n lleihau pe bai'n ofynnol iddynt symud i rywle arall**<br><br>Ni chynigir dileu darpariaeth, dim ond newid yr endid. | Dim newid |
| **A fydd colli'r ysgol, a theuluoedd posibl, yn cael effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned**<br><br>Ni chynigir dileu darpariaeth, dim ond newid yr endid. | Dim newid |
| **Sut y gellid cynorthwyo ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol amgen, ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig (e.e. sut y bydd disgyblion, yn enwedig disgyblion llai breintiedig, yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol)**<br><br>Nid oes unrhyw ddewisiadau sy'n gofyn am ystyried ysgol amgen. | Dim newid |
| **Effaith gyffredinol cau ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau'r ysgol, a ddefnyddir gan y gymuned leol)**<br><br>Ni fydd unrhyw gyfleusterau na gwasanaethau yn cael eu colli o ganlyniad i unrhyw un o'r dewisiadau ar gyfer newid. Mae dewisiadau'r cynnig yn cynnwys cadw'r sefyllfa bresennol a newid endid yn unig. | Effaith negyddol fach bosibl |

| | |
|---|---|
| Mynegodd y disgyblion a ymatebodd i'r ymgynghoriad bryderon ynghylch colli cysylltiad â'r eglwys, tra bod nifer o'r ymatebwyr yn credu y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg oherwydd eu bod yn teimlo bod hyn yn cael ei gynnal gan y berthynas â'r eglwys, a gweithgareddau a arweinir gan yr eglwys. Teimlai nifer fach iawn o'r ymgyngoreion y gellid effeithio'n negyddol ar gydlyniant cymunedol. | |

| **Sut y mae'r cynnig yn cyd-fynd â nodau llesiant Sir Benfro / Cymru** | |
|---|---|
| **Llewyrchus** | Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn effeithio ar ffyniant yn yr ardal. |
| **Cydnerth** | Mae'r cynnig yn alluogwr ar gyfer gwneud yr ysgol yn fwy cydnerth o ran cyfleoedd yn y dyfodol i ystyried ffedereiddio. |
| **Iachach** | Dim effaith sylweddol wedi ei rhagweld. |
| **Cyfartal** | Gweler Atodiad 3 o'r ddogfen ymgynghori. Roedd awydd cryf gan ymgyngoreion i gadw'r statws gwirfoddol a reolir, a'r berthynas â'r eglwys. |
| **Cymunedau cydlynus** | Effaith tymor byr ddisgwyliedig, tra bo'r newid yn newydd ac o bosibl yn aflonyddgar, cyn iddo ddod yn normal newydd. Teimlai nifer fach iawn o ymgyngoreion y gallai'r cynnig effeithio'n negyddol ar gydlyniant cymunedol. |
| **Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Dim effaith yn cael ei rhagweld gan y byddai'r ysgol yn parhau i fod yn un Gymraeg. |
| **Cyfrifol ar lefel fyd-eang** | Dim effaith wedi ei rhagweld. |

| **Cloriannu cynaliadwyedd y cynnig** | |
|---|---|
| **Tymor hir**<br>Sut y mae'r cynnig yn cydbwyso'r tymor byr â diogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir | Mae'r cynnig yn cynyddu'r siawns y bydd yr ysgol yn parhau yn y tymor hir yng nghyd-destun ardal â lleoedd gwag sylweddol, drwy alluogi cyfleoedd ffedereiddio i gael eu hystyried yn y dyfodol. |
| **Atal**<br>Sut y gallai'r cynnig atal problemau rhag digwydd neu waethygu | Ni fyddai cadw'r sefyllfa bresennol yn galluogi ystyried cyfleoedd ffedereiddio yn y dyfodol, a gallai recriwtio pennaeth newydd addas fod yn heriol pan fyddai'r swydd yn dod yn wag. |
| **Integreiddio** | Mae'r cynnig yn dilyn gofynion ymgynghori statudol Llywodraeth Cymru, ac mae'n cydymffurfio â |

| | |
|---|---|
| Ystyried sut y mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion cyrff cyhoeddus eraill | disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod darpariaeth addysg mewn siroedd yn darparu gwerth am arian. |
| **Cydweithredu**<br>Sut y mae'r cynnig yn cyd-fynd â gweithio gyda sefydliadau eraill, neu rannau eraill o'r cyngor | Mae cydweithio â sefydliadau eraill, yn enwedig corff llywodraethu'r ysgol, yn allweddol i sicrhau bod y cynnig yn cael ei weithredu ac, yn y pen draw, yn llwyddiannus. |
| **Cynnwys pobl**<br>Sut y mae pobl wedi cael eu cynnwys, a sut yr ydym wedi sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth Sir Benfro | Mae cyfranogiad eang gan randdeiliaid yn rhan gynhenid o'r broses statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn Sir Benfro. |

# 7. Asesiad effaith wedi ei ddiweddaru ar ansawdd a safonau mewn addysg, ac effaith trefniadau teithio gwahanol

Rhoddwyd ystyriaeth ychwanegol, o ran ansawdd a safonau mewn addysg, ac effaith trefniadau teithio gwahanol, yng ngoleuni sylwadau'r ymgyngoreion. Dylid darllen yr ystyriaethau ychwanegol hyn yng nghyd-destun Atodiad 5 (Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo / penderfynu ar gynnig trefniadaeth ysgolion) yn y ddogfen ymgynghori.

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Gwnaeth rhai ymgyngoreion sylwadau sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau mewn addysg.

Roedd disgyblion yn yr ysgol yn pryderu y byddai gwersi'n dechrau'n hwyrach na'r disgwyl, ac y byddai gan y pennaeth a'r dirprwy bennaeth ormod o waith, yng nghyd-destun y rhagdybiaeth y byddai gweithredu'r cynnig hwn wedyn yn arwain at ffedereiddio yn y dyfodol. Yn yr un modd, roedd rhai ymgyngoreion yn pryderu y gallai fod effaith negyddol ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Fodd bynnag, mae’r pryderon hyn yn ymwneud yn y bôn ag effaith ganfyddedig ffedereiddio, yn hytrach nag effaith y cynnig yr ymgynghorir arno ar hyn o bryd, a fyddai’n newid y statws yn dilyn diddymu’r ysgol a’i sefydlu fel ysgol gymunedol. Ar ben hynny, gwnaeth Estyn ddatganiad clir ynghylch ansawdd a safonau mewn addysg fel a ganlyn:

*Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol, o leiaf, yn yr ardal.*

**Effaith trefniadau teithio gwahanol**

Ni wnaed unrhyw newidiadau mewn perthynas ag effaith trefniadau teithio gwahanol o ganlyniad i’r ymgynghoriad. Mae hyn oherwydd mai’r unig fater a nodwyd o’r ymgynghoriad mewn perthynas â threfniadau teithio oedd y pellter i’r ysgol wirfoddol a reolir amgen agosaf mewn amgylchiadau pan fo’r cynnig yn cael ei roi ar waith, a bod y rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid yn dymuno parhau i gael addysg ffydd ar gyfer eu plentyn / plant. Roedd y mater hwn eisoes wedi ei nodi yn yr asesiad o effaith yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol.

# 8. Dadansoddiad wedi ei ddiweddaru o’r dewisiadau amgen a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori

| Disgrifiad | Manteision | Anfanteision | Asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad |
|---|---|---|---|
| Cadw’r sefyllfa bresennol | • Dim gofyniad am broses statudol ar gyfer trefniadaeth yr ysgol<br>• Yn cadw ysgol wirfoddol a reolir yr Eglwys yng Nghymru yn yr ardal<br>• Yn bodloni dymuniadau rhai aelodau o’r gymuned leol a rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid | • Nid yw’n galluogi ffedereiddio yn y dyfodol er mwyn gwella cynaliadwyedd hirdymor | Cadw’r sefyllfa bresennol oedd y dewis mwyaf poblogaidd o bell ffordd ymhlith yr ymgyngoreion. Roedd llawer yn teimlo bod y cynnig yn ceisio trwsio rhywbeth nad oedd wedi ei dorri. Roedd y mwyaf o’r pryderon yn ymwneud â chanfyddiad y byddai ffedereiddio yn y dyfodol yn creu canlyniadau negyddol i’r ysgol. Byddai’r sefyllfa bresennol hefyd yn cadw’r cysylltiad â’r eglwys, sef |

| Disgrifiad | Manteision | Anfanteision | Asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad |
|---|---|---|---|
| | • Yn bodloni dymuniadau'r esgobaeth | | cysylltiad a oedd yn cael ei werthfawrogi gan lawer o'r ymatebwyr.<br><br>Fodd bynnag, o'i ystyried yng nghyd-destun canfyddiadau'r adolygiad o ysgolion yn ardal y Preseli, yn enwedig y nifer fawr a chynyddol o leoedd gwag yn yr ardal, mae yna risg y gallai canlyniadau tymor canolig i hirdymor peidio â chymryd camau gweithredu ar hyn o bryd i symud yr ysgol yn agosach at sefyllfa o gynaliadwyedd hirdymor, arwain at ganlyniadau negyddol yn y dyfodol. |
| Newid y statws o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol | • Mae newid y statws i ysgol gymunedol yn rhoi cyfle yn y dyfodol i ffedereiddio ag un neu ragor o ysgolion lleol, sydd i gyd yn ysgolion cymunedol. Byddai hyn yn gwella cynaliadwyedd hirdymor | • Mae angen proses statudol ar gyfer trefniadaeth yr ysgol<br>• Yn gadael yr ardal heb ysgol wirfoddol a reolir<br>• Nid yw'n bodloni dymuniadau rhai aelodau o'r gymuned leol, rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid, na'r esgobaeth | Dim ond nifer fach iawn o ymgyngoreion a gefnogodd y dewis hwn, a oedd o'r farn y byddai newid o'r fath yn cryfhau gwydnwch hirdymor yr ysgol, ac yn ymateb rhagweithiol i fynd i'r afael â heriau posibl o ran recriwtio penaethiaid yn y dyfodol yng nghyd-destun ysgol wledig. |

# 9. Crynodeb o'r canfyddiadau

Roedd yr ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol o ran faint o ymgysylltiad a gafwyd ar y cynnig.

Roedd y mwyafrif llethol o'r disgyblion yn erbyn newid statws yr ysgol, ac roedd y mwyafrif o'r sylwadau yn ymwneud â ffedereiddio posibl. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chynnig i ddiddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, a'i hailsefydlu fel ysgol gymunedol ar gyfer plant 3–11 oed. Nid cynnig i ffedereiddio mo hwn. Wedi dweud hynny, mae'n ddealladwy bod ymgyngoreion wedi cyfeirio at ffedereiddio, o ystyried mai un o fuddion clir y cynnig yw rhoi hyblygrwydd i alluogi ystyried cynnig ffedereiddio yn y dyfodol, pe bai angen. Pe bai cynnig ffedereiddio yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol, byddai'n destun ei ymarfer ymgynghori ei hun.

Nododd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr i'r ddogfen ymgynghori nad oeddent yn cefnogi'r cynnig. Ymhlith y rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd llawer yn teimlo bod yr ysgol yn gwneud yn dda ac nad oedd angen newid. Roedd pryderon ynghylch colli hunaniaeth, effeithiau posibl ar gydlyniant cymunedol, colli dewis rhieni (fel yr unig ysgol ffydd yn yr ardal), pryderon yn y dyfodol ynghylch effeithiau posibl oherwydd ffedereiddio, a phryderon cyfreithiol yn ymwneud â'r tir. Mynegwyd barn hefyd fod y Gymraeg yn ffynnu yn yr ysgol, yn rhannol oherwydd statws gwirfoddol a reolir yr ysgol, a'i pherthynas â'r eglwys.

Mewn cyferbyniad, cefnogodd lleiafrif bach iawn o ymatebwyr y cynnig oherwydd ei fod yn cael ei ystyried fel un a oedd yn darparu gwydnwch yn y dyfodol, yn cyd-fynd yn well â mwyafrif yr ysgolion (sy'n ysgolion cymunedol), yn symleiddio llywodraethu a'r broses o wneud penderfyniadau, ac yn ymateb rhagweithiol i heriau arweinyddiaeth posibl yn y dyfodol.

Barn Estyn oedd bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol, o leiaf, yn yr ardal.

# 10. Cynnig

Mae'r adroddiad ymgynghori hwn wedi darparu dadansoddiad manwl o ganfyddiadau'r ymarfer ymgynghori statudol (Adrannau 3, 4 a 5) a gynhaliwyd rhwng 16 Rhagfyr 2025 a 30 Ionawr 2026.

Mae wedi ailasesu'r cynnig, yng ngoleuni'r sylwadau a ddaeth i law (Adrannau 6 a 7), ynghyd ag ailasesu'r dewisiadau amgen a gyflwynwyd yn wreiddiol yn y ddogfen ymgynghori (Adran 8). Ar ben hynny, mae wedi ystyried dewisiadau amgen rhesymol a gyflwynwyd gan ymgyngoreion (Adran 5).

Yn dilyn yr holl ystyriaeth ac ailasesiadau uchod, mae'r cynnig i ddiddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3–11 oed yn parhau i gael ei ystyried yn ddewis a ffefrir dros y dewisiadau amgen, yng nghyd-destun canfyddiadau'r adolygiad o addysg yn ardal y Preseli, a arweiniodd at y cynnig. Er bod amryw o ddadleuon wedi eu cyflwyno yn erbyn diddymu'r ysgol, a rhai dewisiadau amgen adeiladol wedi eu hawgrymu, nid oedd yr un ohonynt yn mynd i'r afael ag ansawdd hirdymor yr ysgol, a chynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol yn y dyfodol, yng nghyd-destun yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg yn ardal y Preseli. Felly, rydym yn ystyried mai gweithredu'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig.